| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD** | **17 AWST 2004** |
| **TEITL** | **LIMWSINAU HIR** |
| **PWRPAS** | **SEFYDLU POLISI O RAN TRWYDDEDU LIMWSINAU HIR** |
| **AWDUR** | **PENNAETH GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD** |

## 1. Cefndir

Cymeradwywyd Amodau Cyffredinol, o ran trwyddedu Cerbydau Hacni (Tacsis) a Cherbydau Hurio Preifat gan Bwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu Canolog y Cyngor ar 24 Mawrth 2003. Mae'r Amodau Cyffredinol hyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976 yn cael eu hanelu yn bennaf tuag at Gerbydau Hurio Preifat a ddefnyddir ar gyfer siwrneiau byr, ac nid yw'r fframwaith hwn yn galluogi trwyddedu Limwsinau Hir Americanaidd. Mae copi o'r Amodau hyn i'w cael yn Atodiad B.

1.2 Nid yw'n bosibl trwyddedu cerbydau o'r fath o dan yr amodau trwyddedu presennol gan fod yr amodau yn gofyn am i'r cerbydau fod yn gyrru ar y dde. Tra nad yw'r cerbydau yn berthnasol o fewn polisïau hurio preifat presennol yr awdurdodau, gellor cyflwyno amodau gwahanol neu ychwanegol ar gyfer limwsinau hir. Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â thrwyddedu limwsinau hir.

## 2. Manylion

2.1 Ceir modur sydd wedi cael eu hymestyn yn ddramatig yw limwsinau hir, ac mae eu defnydd wedi newid o'r defnydd traddodiadol fel ceir priodas i waith hurio preifat prif ffrwd. Mae'r cerbydau hyn fel arfer yn Lincoln Town Car, Ford Excursion, Cadillac Fleetwood (modelau hyd at 1998) neu Cadillac DeVille wedi cael eu trawsnewid. Mae'r nifer o limwsinau hir sydd wedi cael eu mewnforio o dramor, yn arbennig o'r Unol Daleithiau, wedi cynyddu. Mae eu defnydd yn cynnwys holl waith hurio preifat yn ogystal ag achlysuron arbennig megis tripiau i'r rasys, nosweithiau 'stag' a 'hen' a phartïon pen-blwydd plant. Mae nifer o broblemau sydd yn eu rhwystro rhag cael eu trwyddedu megis:

- gall rhai o'r cerbydau gludo mwy nag 8 o deithwyr
- sydd yn golygu eu bod y tu allan i awdurdod Awdurdodau Lleol
- mae nifer ohonynt yn gyrru ar y chwith
- mae gan nifer wydrau tywyll
- mae'r rhan fwyaf yn deillio o'r UD
- mae nifer wedi cael eu trawsnewid neu eu haddasu ar ôl eu gwneuthuriad
- mae'r man eistedd ar gyfer pob teithiwr yn helaeth iawn, ac yn mesur 460mm ar gyfer pob teithiwr a byddai modd cynnwys mwy na dim ond 8 o bobl.
- Oherwydd eu tarddiad Americanaidd, efallai na fydd partiau ar gael, gan arwain at anawsterau mewn cynnal a chadw'r car.

2.2 O ganlyniad, mae nifer o awdurdodau lleol wedi bod yn amharod i drwyddedu'r cerbydau hyn, ac i sicrhau bod y gweithredwyr a'r gyrwyr wedi eu trwyddedu yn briodol hefyd. Golyga hyn bod teithwyr mewn perygl oherwydd eu bod yn defnyddio cerbydau, gyrwyr a gweithredwyr nad ydynt wedi cael prawf nac wedi cael eu trwyddedu. Mae'r cerbydau hyn yn codi nifer o bryderon:

- Rhaid i'r rhan fwyaf o gerbydau ddatgan eu bod am gludo wyth (8) neu lai o deithwyr fel rhan o'u trefn cofrestru ar ôl iddynt gael eu mewnforio. Fodd bynnag, gall gweithredwyr gludo 9 neu fwy o deithwyr, yn anghyfreithlon, a byddai hynny yn annilysu'r yswiriant ac yn rhoi'r teithwyr mewn perygl.
- Mae rhai cwmnïau limwsîn wedi bod yn rhoi potel o siampên am ddim i'w cwsmeriaid, sydd wedi dod yn broblem oherwydd bod pobl ifanc o dan 18 mlwydd oed yn cael teithio fwyfwy i ddigwyddiadau yn y modd yma. Maent yn cael alcohol ac yn cyrraedd lleoedd mewn gwahanol gyflwr o feddwdod, ac yn aml iawn mae daliwr y drwydded yn gorfod eu rhwystro rhag mynd i mewn i'r adeilad.
- Mae rhai cwmnïau yn darparu adloniant i'r cwsmeriaid yn y cerbyd, a allai gynnwys gweithgareddau anaddas megis dawnsio rhywiol sydd yn arwain at bryderon ynglŷn ag anwedduster.
- Nid yw'r teiars priodol ar gael yn rhwydd yn y DG; mae'n rhaid iddynt gael eu mewnforio yn arbennig. O ganlyniad, mae teiars o'r maint iawn yn cael eu gosod ar y cerbydau, ond â'r llwyth pwysau anghywir.
- Gall hyd y cerbyd a'r ffaith fod y mwyafrif yn gyrru ar y chwith eu gwneud yn anaddas ar gyfer ffyrdd y DG.
- Tra mae Ford a Cadillac yn awdurdodi trawsnewidwyr cymeradwyedig, mae llawer o drawsnewidiadau yn cael eu gwneud gan bobl nad oes ganddynt y cymwysterau hyn.

2.3 Mae'r rhan fwyaf o limwsinau hir yn cael eu mewnforio am resymau masnachol, a bydd angen iddynt gael Cymeradwyaeth Un Cerbyd (SVA) ar gyfer cael eu cofrestru yn y wlad hon. Ni fyddai'n bosibl iddynt gael eu cymeradwyo fel

Cerbydau Cludo Teithwyr (PCV) gan na fyddent yn gallu cyrraedd y safonau o ran trefniadau drws a'r angen i fwy o bobl allu dianc mewn argyfwng. Mae'r cynllun SVA yn archwiliad cyn cofrestru ar gyfer ceir a cherbydau nwyddau ysgafn nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo o ran math i safonau Prydeinig neu Ewropeaidd. Prif bwrpas y cynllun yw sicrhau bod y cerbydau hyn wedi cael eu dylunio a'u hadeiladu i ddiogelwch modern a safonau amgylcheddol cyn iddynt gael eu defnyddio ar ffyrdd cyhoeddus. Pan fydd y cerbyd yn cael ei gyflwyno ar gyfer SVA, bydd datganiad yn nodi, er gwaethaf ei fod yn ddigon posibl cludo mwy nag wyth teithiwr yn y car, ni fydd hynny fyth yn digwydd. Nid yn unig bydd y mewnforiwr yn derbyn na chaiff ei ddefnyddio i gludo mwy nag wyth o deithwyr, bydd yn rhoi gwybod i unrhyw un arall sydd yn ei ddefnyddio am y cyfyngiad hwn hefyd. Dylai'r wybodaeth yma gael ei basio ymlaen i'r prynwyr nesaf a darpar hurwyr.

## 3. Y Sefyllfa Gyfreithiol o ran Limwsinau Hir

Ar gyfer dibenion trwyddedu a gorfodaeth, gall limwsinau hir gynnwys trefnau trwyddedu ar gyfer un ai Cerbydau Cludo Teithwyr (PCV) neu Gerbydau Hurio Preifat. Gall y cerbydau gael eu trwyddedu fel PCVs bychan i gludo wyth o deithwyr os codir prisiau ar wahân, yn y modd y codir tâl ar fws yn hytrach na hurio'r cerbyd cyfan fel gyda cherbydau hacni neu gerbydau hurio preifat. Mae yna hefyd anghenion cofrestru ffordd ar gyfer cerbydau sydd yn gweithredu yn y modd yma. Oherwydd y rhesymau hyn, mae limwsinau hir yn fwy tebygol o ddisgyn o fewn trefn trwyddedu hurio preifat.

3.2 O ran trwyddedu cerbydau hir, mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn diffinio cerbyd hurio preifat fel cerbyd modur sydd wedi'i wneud neu addasu i eistedd llai na naw o deithwyr, oni bai am gerbyd hacni neu gerbyd gwasanaeth cyhoeddus, sydd ar gael i'w hurio gyda gwasanaeth y gyrrwr i ddibenion cludo teithwyr. Mae Adran 48 o Ddeddf 1976 yn gofyn bod yr awdurdod yn fodlon gyda'r canlynol cyn rhoi trwydded:

(i) addasrwydd y math, maint a dyluniad ar gyfer ei ddefnyddio fel cerbyd hurio preifat;
(ii) nad ydyw o'r fath ddyluniad a gwedd ag i arwain pobl i gredu ei fod yn gerbyd hacni;
(iii) ei fod mewn cyflwr mecanyddol addas;
(iv) diogel; a
(v) chyffyrddus

Gellir trwyddedu limwsinau hir ar gyfer gwaith hurio preifat, ar yr amod ei fod wedi'i addasu i gludo dim mwy na 8 o deithwyr, a'i fod yn cyrraedd y gofynion a nodwyd yn y Ddeddf.

3.3 Mae nifer o eithriadau posibl o dan Ddeddf 1976, sydd yn nodi na ddylai unrhyw beth:

(a) fod yn berthnasol i gerbyd a ddefnyddir ar gyfer cludo teithwyr neu nwyddau o fewn ardal reoledig i chwilio am gytundeb hurio'r cerbyd a wnaed y tu allan i'r ardal os nad yw'r cerbyd ar gael i'w hurio o fewn yr ardal.
(b) fod yn berthnasol i gerbyd a ddefnyddir i gludo teithwyr yn unig ar gyfer hurio neu dâl o dan gytundeb hurio'r cerbyd am gyfnod o ddim llai na saith diwrnod.
(c) fod yn berthnasol i gerbyd tra ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag angladd neu gerbyd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu yn bennaf, gan rywun sydd yn rhedeg busnes cyfarwyddwr angladdau, i ddibenion angladdau;
(ch) fod yn berthnasol i gerbyd tra ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â phriodas.

Nid oes angen trwydded ar limwsinau hir nad ydynt ar gael i'w hurio o fewn Gwynedd, neu sydd yn gweithredu ar gytundeb cyfyngedig tymor hir neu sydd yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad ag angladdau neu briodasau.

3.4 Ni fyddai angen trwydded ar gyfer Siampên am ddim, ar yr amod ei fod wirioneddol am ddim. Fodd bynnag, o dan y Ddeddf Drwyddedu 1964 fe ddehonglir cynnig gwirod alcoholig "am ddim" fel gwerthu, os codir tâl am nwyddau neu wasanaethau eraill, fel hurio limwsîn gyda photel o siampên "am ddim" yn cael ei ddarparu gan y gweithredwr. Mae trenau, cychod ac awyrennau yn rhydd o ofynion y Ddeddf Drwyddedu tra maent yn teithio, ond nid yw hyn yn wir am gerbydau ar y ffordd fel limwsinau, ceir priodas, cerbydau a bysus. Mae'n bosibl ymgeisio am all-drwydded gan Ynadon Heddwch ar gyfer cyfeiriad cartref neu fusnes y gweithredwr. Rhaid i'r drwydded a roddir fod ar gyfer all-drwydded wedi'i leoli yng nghartref yr huriwr gan na ellir rhoi mewn-drwydded ar gyfer cerbyd sydd yn symud. Mae'r gyfraith yn gofyn am i'r gwirod fod yn "addas" ar gyfer y cwsmer cyn iddynt gychwyn ar y daith, felly bydd cynnwys y bar bychan yn cael eu harchebu o flaen llaw, yn hytrach na bod y teithwyr yn cael dewis wrth iddynt fynd ar eu taith.

3.5 Bydd gan nifer o weithredwyr limwsinau hir bolisi yswiriant ceir priodas, ar y sail y bydd y cerbydau yn cael eu defnyddio yn aml yn ystod y dydd, unwaith neu ddwywaith yr wythnos. Cyn cael trwydded fel cerbyd hurio preifat bydd angen polisi yswiriant llawn at ddibenion hurio preifat yn gyntaf.

## 4. **Crynodeb**

4.1 Mae'r defnydd a wneir o limwsinau hir yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Gan fod diogelwch y cyhoedd yn hanfodol, mae'n bwysig mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn trwyddedu'r cerbydau hyn.

## 5. **Argymhelliad**

Bod cerbydau math limwsinau hir sydd wedi eu mewnforio yn:

a) Cael eu heithrio o'r gofyn o dan amodau'r drwydded ar gyfer cerbydau hurio preifat i fod yn gyrru ar y dde.

b) Cael eu heithrio o'r gofyn o dan amodau'r drwydded ar gyfer cerbydau hurio preifat na ddylai'r seddi fod tua'r ochr i gyfeiriad teithio'r cerbyd.

c) Cael ei awdurdodi fel cerbyd hurio preifat o fri.

ch) Cael ei eithrio o'r gofyn i arddangos sticeri drws

d) Cael eu cymeradwyo i gael eu trwyddedu fel cerbyd hurio preifat yn ddarostyngedig i ychwanegu'r amodau ychwanegol a nodir yn Atodiad A.

**ATODIAD A**

**Cyngor GWYNEDD Council**

## AMODAU YCHWANEGOL NEU DDIWYGIEDIG SYDD YN BERTHNASOL AR GYFER LIMWSINAU HIR A DRWYDDEDIR FEL CERBYDAU HURIO PREIFAT

Mae'r Amodau hyn a wnaed o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, yn benodol ar gyfer cerbydau a addaswyd drwy ymestyn y pellter rhwng echelydd ar gerbyd safonol a grëwyd mewn ffatri. Gellir ond defnyddio cerbyd o fri ar gyfer priodasau a digwyddiadau arbennig. Maent yn wahanol i amodau safonol Cerbydau Hurio Preifat er cydnabod y ffeithiau canlynol am limwsinau hir:

i. ni fyddent yn cael eu defnyddio fel cerbydau hacni
ii. byddent yn teithio ar gyflymder arafach na cheir arferol
iii. ni fyddent yn goddiweddyd cerbydau eraill fel arfer
iv. dylent fod yn adnabyddadwy i'r hurwyr
v. dylent fod yn drymach a chryn lawer hirach na cheir safonol
vi. dylent gael eu haddasu a'u trawsnewid gan rywun yn hytrach na'r gwneuthurwr gwreiddiol

Mae limwsîn hir yn gerbyd sydd wedi'i drawsnewid gyda'r gallu i gludo hyd at, ond ddim mwy nag 8 o deithwyr sydd wedi archebu o flaen llaw. Ar gyfer dibenion Amodau Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat, dosberthir y cerbyd fel cerbyd o fri.

### CYFFREDINOL

1.1 Dylid darllen yr Amodau ychwanegol neu ddiwygiedig hyn law yn llaw gydag Amodau Safonol ar gyfer Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat .

1.2 Mae 'Limwsîn Hir' yn gerbyd math salŵn sydd wedi cael ei gynyddu o ran hyd drwy ymestyn y pellter rhwng echelydd yn dilyn ei wneuthuriad. Ar gyfer diben yr amodau hyn, bydd wedi'i gyfyngu i gludo hyd at, ond ddim mwy nag wyth (8) o deithwyr.

1.3 Mae 'Limwsîn Hir Americanaidd' yn limwsîn hir sydd wedi'i fewnforio o'r UDA, a bydd fel arfer o wneuthuriad gwreiddiol Lincoln (Ford) neu Cadillac.

### AMODAU

2.1 Bydd limwsîn hir, yn y lle cyntaf yn cyfarfod yr amodau safonol yn ymwneud â Cherbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, gyda'r eithriadau y bydd y cerbyd:

a. Yn gyrru ar y chwith.
b. yn cynnwys rhai seddi sydd yn wynebu’r ochr
c. yn cynnwys gwydr gydag arlliw
ch. wedi’i esgusodi rhag arddangos Sticeri Drws Swyddogol Cyngor Gwynedd
d. yn cynnwys gwregysau diogelwch ar bob sedd teithiwr

2.2 Yn achos pob limwsîn hir, bydd y Cyngor angen y copïau gwreiddiol o’r dogfennau a ganlyn cyn y bydd y cais yn cael ei ystyried:

(a) Dogfennau Mewnforio Cyflawn – Ceisiadau Un Cerbyd (SVA) neu Dystysgrif Cydymffurfio. (os yn gymwys)
(b) Dogfen Gofrestru DVLA (V5).
(c) Tystiolaeth o ddyddiad gwneuthur y cerbyd.
(ch) Tystysgrif MOT Cyfredol (os yn gymwys)
(d) Bydd angen Polisi Yswiriant llawn yn cynnwys dibenion Hurio Preifat

2.3 Dylai’r Gweithredwr hefyd sicrhau bod limwsîn hir Americanaidd hefyd yn cydymffurfio gyda’r canlynol:

(a) Dylent gael isafswm o bedair olwyn ffordd ac olwyn dros ben maint llawn. Dylai’r teiars fod ar raddfa fel a nodir gan Ford USA h.y. cerbydau a gofrestrwyd cyn 1998 – 235/75R 15 108S (BF Goodrich Extra Load neu Gyfatebol). Dylai’r fersiynau o 1998 ymlaen gael eu gosod â 225/70R 16 107T (Cyfnerthedig).
(b) Dylai gwregysau diogelwch, gael eu gosod yn unol â Rheoliadau Gwneuthuriad a Defnydd.
(c) Ni ddylai uchafswm yr hyd fod yn fwy na 120 modfedd /3048mm.

ch) Dylid gosod rhybudd “cerbyd hir”, sydd yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladwaith a Defnydd ar gefn y cerbyd.

2.4 Ble darperir diodydd alcoholig yn y cerbyd, dylai’r Gweithredwr arddangos copi o’u Trwydded Gwirod gyda’r Awdurdod Lleol. Ni fydd unrhyw un o dan 18 mlwydd oed a gaiff eu cludo yn y cerbyd yn cael yfed alcohol.

2.5 Bydd gwydr gydag arlliw yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladwaith a Defnydd).

2.6 Gwaherddir y gweithgareddau a ganlyn:

a) Stripio
b) Dawnsio rhywiol
c) Dawnsio polyn

ch) Unrhyw weithgaredd neu berfformiad tebyg

2.7 Ni fydd plant o dan 16 mlwydd oed yn cael eu cludo mewn limwsinau hir oni bai fod rhiant o leiaf un o'r plant neu oedolyn cyfrifol yn mynd gyda hwynt.

2.8. Ble darperir gwirod, nad ydyw wirioneddol am ddim, mae angen i'r gweithredwr gael All-drwydded gan Ynad Heddwch ar gyfer ei g/chyfeiriad cartref neu fusnes. Dylid arddangos copi o'r drwydded yn y cerbyd. (Pan fydd y Ddeddf Drwyddedu 2003 yn gyfrifoldeb ar yr Awdurdod Lleol, bydd hwn yn cael ei drosglwyddo i drwydded anheddau a phersonol).

2.9 Bydd profion cerbydau ar limwsinau hir oll yn cael eu gwneud yng Ngorsaf Profi Cerbydau VOSA, Cibyn, Caernarfon, fel a ganlyn:

a. Cerbyd hyd at 5 ml. oed - dwy waith y flwyddyn
b. Cerbyd dros 5 ml. oed a hyd at 10 ml. - tair gwaith y flwyddyn